Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Gayle Major
Ysgol Gynradd Blaenhonddan
Main Road
Bryncoch
Castell-nedd
SA10 7PE

05/06/2025

Annwyl Gayle Major

**Ymweliad interim:** Mai 2025

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Gynradd Blaenhonddan yn ddiweddar i ystyried sut mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd wrth fynd i'r afael â dau o'r argymhellion o'r arolygiad craidd blaenorol. Yn ystod yr ymweliad, cafodd y tîm gyfle i arsylwi addysgu a dysgu, edrych ar waith disgyblion, craffu ar dystiolaeth a siarad â staff ac arweinwyr. Isod, ceir crynodeb o'r cynnydd.

## Ffocws yr ymweliad

## Codi safon ysgrifennu disgyblion

- Mae gan arweinwyr gynlluniau addas ar waith i wella ansawdd ysgrifennu disgyblion ac maent yn monitro effaith y cynlluniau hyn ar gynnydd disgyblion yn rheolaidd.
- Mae'r ysgol wedi datblygu ymagwedd ysgol gyfan tuag at ddatblygu medrau ysgrifennu disgyblion ac mae arweinwyr yn sicrhau bod athrawon yn cael cyfleoedd rheolaidd i gynllunio gwersi gyda'i gilydd.
- Yn gyffredinol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yn gwneud cynnydd priodol o ran datblygu eu medrau ysgrifennu erbyn iddynt adael yr ysgol.
- Ar draws yr ysgol, nid yw athrawon yn adeiladu'n systematig ar fedrau ysgrifennu disgyblion yn ddigon da. Nid ydynt yn ystyried camau nesaf unigol disgyblion yn ddigon da bob tro i sicrhau eu bod yn gwneud cynnydd yn ystod gwersi ac, o ganlyniad, nid yw disgyblion bob amser yn gwneud y cynnydd y dylent ei wneud dros gyfnod.

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd, CF24 5JW Ffôn: 02920 446446 ymholiadau@estyn.llyw.cymru www.estyn.llyw.cymru

Estyn, Anchor Court, Keen Road, Cardiff, CF24 5JW Telephone: 02920 446446 enquiries@estyn.gov.wales www.estyn.gov.wales

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

## Sicrhau bod gan ddisgyblion ddealltwriaeth glir o sut i wella eu gwaith

- Mae arweinwyr wedi datblygu set allweddol o egwyddorion i athrawon eu defnyddio ar draws yr ysgol i helpu a chefnogi disgyblion i wella eu gwaith. Yn gyffredinol, mae athrawon yn cymhwyso'r egwyddorion hyn yn dda er mwyn sicrhau bod disgyblion yn deall yr hyn y maent wedi'i wneud yn dda a sut y gallent wella eu gwaith ymhellach.
- Mae athrawon yn rhoi adborth defnyddiol i ddisgyblion yn ystod gwersi, gan eu hannog i gywiro sillafu ac atalnodi a gwella eu gwaith trwy ddefnyddio ystod ehangach o eirfa.
- Mae arweinwyr yn ymweliad ag ysgolion lleol i arsylwi arfer effeithiol a datblygu canllawiau clir i ddisgyblion eu defnyddio wrth asesu eu gwaith. Mae disgyblion hŷn yn defnyddio'r canllawiau hyn yn briodol i werthuso eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion. Mae hyn yn helpu i gryfhau eu dealltwriaeth o sut y gallent wella.

Mae adroddiad arolygiad craidd diweddaraf yr ysgol a rhagor o wybodaeth am broses a diben ymweliadau interim i'w gweld ar ein gwefan:
http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6712110

Yn gywir

LMiles.

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol